

## 2018 Rhif 594 (Cy. 111)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018

*Gwnaed* 10 Mai 2018

*Yn dod i rym* 14 Mai 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 14 Mai 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys a mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 14 Mai 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiadau**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwys**

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Mai 2018

*Richard Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLEN**

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy, Sir Ddinbych hyd at ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Abergele, Conwy.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Cyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy) a Chyffordd 25 (Bodelwyddan).